# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Fronhaul**

**Fronhaul**
**Ffordd yr Orsaf**
**Sanclêr**
**Caerfyrddin**
**SA33 4BQ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

02/06/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Fronhaul

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Fronhaul and Brookfield Care Home Ltd |
| Lleoedd cofrestredig | 16 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 30 Mai 2022 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb


Mae'r bobl yn fodlon ar y gofal a'r cymorth maent yn eu cael yng nghartref Fronhaul. Caiff yr unigolion eu parchu ac mae ganddynt rwydd hynt i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Darperir cyfleoedd i'r bobl leisio eu barn ac i wneud dewisiadau yn eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae asesiadau risg yn galluogi pobl cymaint â phosibl ac yn eu diogelu ar yr un pryd. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl ac yn glir, gan ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar anghenion gofal a chymorth i'r staff. Caiff anghenion iechyd cymhleth y bobl eu monitro'n agos ac mae cymorth gan weithwyr iechyd proffesiynol yn sicrhau y caiff iechyd corfforol a meddyliol unigol y bobl eu hybu.

Mae'r staff yn fedrus ac yn brofiadol. Mae hyfforddiant arbenigol yn ychwanegol at hyfforddiant gorfodol yn sicrhau bod gan y staff y wybodaeth berthnasol a'u bod yn hyderus i gyflawni eu rôl. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi ac yn disgrifio'r uwch-aelodau o'r staff fel pobl sy'n hawdd mynd atynt ac yn eu ddeall. Mae systemau recriwtio diogel ar waith.

Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol. Byddai rhai ardaloedd yn elwa o gael eu gweddnewid. Fodd bynnag, mae rhai o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn hapus gyda'r amgylchedd ac nid ydynt am weld unrhyw newidiadau.

Mae arweinyddiaeth a llywodraethiant amlwg ac effeithlon ar waith ac mae'r Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda iawn. Mae systemau ar waith er mwyn monitro ac adolygu'r gofal a ddarperir er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r bobl.

## Llesiant

Mae'r bobl sy'n byw yn Fronhaul yn hapus ac yn cael eu grymuso i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Mae system gweithwyr allweddol ar waith ac mae'r bobl yn cynllunio â'i gweithwyr allweddol yr hyn yr hoffent ei wneud. Caiff hyn ei adolygu'n wythnosol, a gall y cynlluniau newid yn dibynnu ar yr hyn y dymuna'r unigolyn ei wneud ar y diwrnod. Dywedodd un aelod o'r staff wrthym; *"Anything they want to do they just ask; we are flexible to suit their needs and wishes".* Gwelsom y bobl yn barod i fynd allan am y diwrnod, rhai fel grŵp ac eraill gyda chynlluniau unigol. Mae croeso i ymwelwyr ar unrhyw adeg a chaiff y bobl eu cefnogi i gynnal cydberthnasau â ffrindiau ac aelodau o'u teuluoedd.

Darperir cyfleoedd i'r bobl leisio eu barn a dywedodd y bobl eu bod yn teimlo y gwrandewir arnynt. Dywedodd un unigolyn, *"They (staff) are always smiling, I can ask them for anything, they are always there to listen".*

Mae'r ystafelloedd gwely wedi'u haddurno'n unigol a chaiff y bobl eu hannog i gael eitemau eu hunain o'u hamgylch. Mae gan un unigolyn anifail anwes yn ei ystafell a chaiff ei gefnogi i ofalu a bod yn gyfrifol amdano.

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau bob dydd a chaiff eu hannibyniaeth ei hyrwyddo. Caiff y prydau bwyd eu cynllunio a'u paratoi ar gyfer y bobl. Fodd bynnag, mae dewis arall ar gael iddynt a chânt eu hannog i siopa am y cynhwysion a'u paratoi eu hunain lle bo'n bosibl. Anogir y bobl i fwyta'n iach ac i wneud ymarfer corff.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, yn dilyn canllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal, mae'r darparwr yn sicrhau bod ymwelwyr y cartref yn gallu dangos prawf Covid negyddol cyn dod i'r cartref fel rhagofal ychwanegol am fod y bobl yn agored i niwed. Mae'r staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb os byddant yn amau bod person yn wynebu risg ac yn gwybod pa weithdrefn i'w dilyn. Mae polisi diogelu a chwythu'r chwiban ar waith, a chaiff y rhain eu cadw'n gyfredol a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl yn teimlo'n ddiogel yn Fronhaul, dywedodd un unigolyn, "*I feel safer here, people are kind*. *I'm much happier here".*

## Gofal a Chymorth

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gofalgar a phroffesiynol a gafodd eu disgrifio ganddynt fel caredig a neis. Mae aelodau o'u teuluoedd yn disgrifio'r staff gofal fel pobl gyfeillgar, parod eu cymwynas a phroffesiynol. Mae rhai aelodau o'r staff wedi bod yno ers amser hir ac wedi gweithio i'r gwasanaeth am sawl blwyddyn ac felly'n adnabod y bobl yn dda. Caiff aelodau newydd o'r staff yr amser a'r adnoddau i ymgyfarwyddo â chynlluniau gofal a chymorth y rheini y maent yn eu cefnogi. Dywedodd aelod o'r staff wrthym, "*Everything just works, it's very relaxed here".*

Mae'r cynlluniau personol yn gynhwysfawr ac yn darparu manylion ar ganlyniadau a nodau dymunol, anghenion iechyd corfforol a meddyliol, cryfderau, heriau a sut y dylai'r staff ddiwallu'r anghenion gofal hyn. Mae asesiadau risg yn galluogi gan amlinellu sbardunau a allai arwain at y posibilrwydd y byddai cyflyrau iechyd cymhleth y bobl yn ailwaelu a chynlluniau gweithredu clir i'w dilyn pe bai rhywun yn ailwaelu. Mae'r cyfyngiadau ar ryddid yr unigolion yn briodol ac yno er budd gorau'r person yn unig. Mae ethos o alluogi a chaiff y bobl eu parchu fel unigolion.

Mae cofnodion Gofal Dyddiol ar-lein ac yn atgoffa'r aelodau o'r staff i gwblhau 'cyflwr meddyliol' yr unigolion ar bob shifft er mwyn monitro eu cyflyrau iechyd yn agos. Cynhelir ymyrraeth gynnar gyda gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i gynnal a hybu iechyd a lles y bobl.

Caiff adolygiadau o ofal a chymorth y bobl eu cynnal yn rheolaidd ac mae'n cofnodi tystiolaeth bod yr unigolion a'u cynrychiolwyr, os yw'n briodol, yn rhan o'u hadolygiad. Mae cysylltiadau agos â'r Timau Iechyd Meddwl Cymunedol a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n rhan o'u gofal a'u cymorth.

Mae polisi meddyginiaeth ar waith ac mae meddyginiaeth yn cael ei storio a'i rhoi'n ddiogel. Caiff Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth ei archwilio'n rheolaidd a chymerir camau gweithredu ar unrhyw anghysondebau yn amserol ac mae'r staff yn cwblhau ail hyfforddiant pan fo'r angen.

## Yr Amgylchedd

Mae Fronhaul wedi'i leoli mewn lle canolog o fewn pellter cerdded i sawl cyfleuster yn y gymuned megis caffis, bwytai, siopau, meddygfa a chanolfan hamdden.

Mae'r adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n byw yno. Caiff unrhyw waith atgyweirio ei gwblhau mewn modd amserol. Dywedodd un unigolyn wrthym, "*If anything needs doing, they (clinical manager/RI) will fix it".* Ar y cyfan, caiff y cartref ei gadw'n lân. Byddai'n werth ailaddurno a gweddnewid rhai ardaloedd o'r cartref. Fodd bynnag, mae rhai o'r bobl wedi gwrthod gweddnewid eu hystafelloedd gwely. Dywedodd un person wrthym; "*This is like the Hilton compared to my last place'. It's great".* Mae cynlluniau tymor hwy yn cynnwys datblygu fflatiau unigol, gan ddarparu modd o fyw'n fwy annibynnol i rai o'r bobl.

Mae sawl ardal gymunedol gyda seddi cyfforddus i'r bobl gymdeithasu ynddynt. Mae ardal yn yr awyr agored hefyd ar gael i'w defnyddio mewn tywydd cynnes. Mae cyfran fawr o'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth yn smygu'n drwm ac felly mae ardal ddynodedig dan do yng nghefn yr adeilad i'r bobl ei defnyddio ac mae arogl cryf o fwg sigaréts yn yr ardal hon.

Mae mesurau ar waith i sicrhau diogelwch amgylcheddol. Gwelsom dystysgrifau ar gyfer cyfleustodau megis nwy, dŵr a thrydan. Mae asesiadau risg tân a chyfarpar diffodd tân gan gynnwys larymau tân a systemau goleuadau argyfwng yn cael eu gwasanaethu fel mater o drefn. Caiff ymarferion tân eu cynnal yn rheolaidd a'u hailadrodd yn ôl yr angen. Mae Cynllun Personol Gadael mewn Argyfwng ar waith ar gyfer pob unigolyn.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r rheolwyr systemau ar waith sy'n sicrhau y caiff y gwasanaeth ei oruchwylio. Mae ymweliad rheolaidd yr Unigolyn Cyfrifol yn dystiolaeth y caiff archwiliadau trwyadl eu cynnal, a chaiff ansawdd y gwasanaeth a ddarperir ei fonitro a'i adolygu er mwyn rhoi sicrwydd i'r bobl eu bod yn cael y canlyniadau gorau posibl. Mae'r darparwr hefyd yn croesawu ymweliadau archwilio rheolaidd gan yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd er mwyn sicrhau y caiff y safonau gofal a chymorth disgwyliedig eu cynnal.

Mae swydd y rheolwr yn wag, fodd bynnag mae rheolwr y chwaer gartref cyfagos yn rheoli'r ddau wasanaeth nes i berson addas gael ei recriwtio ac mae'r rheolwr ar gael ar gyfer y staff a'r bobl sy'n byw yn Fronhaul. Mae'r uwch-aelodau o'r staff hefyd wedi ymgymryd â dyletswyddau rheoli ychwanegol megis goruchwylio staff gofal.

Gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod proses recriwtio gadarn ar waith ac mae'r staff yn cwblhau'r gwiriadau perthnasol angenrheidiol fel y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a Dogfen Adnabod yn ogystal â darparu geirdaon addas cyn dechrau. Mae gan y gwasanaeth reolwr hyfforddiant a chyfleusterau i sicrhau bod yr aelodau o'r staff yn cael hyfforddiant mewn amrywiaeth o feysydd gorfodol ac ychwanegol sy'n berthnasol i'r bobl y maent yn eu cefnogi yn ystod y cyfnod sefydlu, ac ar sail barhaus er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf. Darperir hyfforddiant arbenigol ar gyflyrau Iechyd Meddwl gan y rheolwr arweiniol clinigol a dywedodd un aelod o'r staff pa mor werthfawr oedd hwn o ran darparu dealltwriaeth well o gyflyrau Iechyd Meddwl wrth ddechrau yn y swydd.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn hyderus i gyflawni eu rôl. Mae polisi drws agored ac mae uwch-aelodau o'r staff ar gael i drafod unrhyw bryderon sydd gan y bobl ar unrhyw adeg. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, dywedodd un unigolyn wrthym *"It's the best job I've ever had, the way it's run and the managers are very understanding".*

Roedd y polisïau allweddol y gwnaethom edrych arnynt yn gyfredol a chânt eu hadolygu'n rheolaidd ac mae'r Datganiad o Ddiben yn adlewyrchu'r nodau, y gwerthoedd a'r gwasanaethau a ddarperir.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 20/07/2023